



Hybu Cig Cymru
Y Cynllun Hyrddod Mynydd

Archwiliadau Amgylcheddol 2022 – Bioamrywiaeth Crynodeb Gweithredol



hybucig.cymru
meatpromotion.wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafodd pob un o'r 54 o ffermwyr yng Nghynllun Hyrddod Mynydd y Rhaglen Datblygu Cig Coch gyfle i gymryd rhan mewn archwiliadau amgylcheddol o fioamrywiaeth ac ôl troed carbon.

Cafodd pob un o'r 54 o ffermwyr yng Nghynllun Hyrddod Mynydd y Rhaglen Datblygu Cig Coch gyfle i gymryd rhan mewn archwiliadau amgylcheddol o fioamrywiaeth ac ôl troed carbon.

Roedd y 25 arolwg ecolegol a gynhaliwyd yn amlygu'r rhyng-sylltiadau cymhleth rhwng hwsmonaeth anifeiliaid a rheolaeth amgylcheddol gan ddangos sut y gall cynhyrchu bwyd fynd law yn llaw â gofal am fywyd gwyllt. Cafodd yr holl rwydweithiau o gaeau, ffriddoedd a mynyddoedd ar y ffermydd a arolygwyd eu datblygu i reoli cyfundrefnau pori ac i roi cysgod a lloches i'r anifeiliaid. Mae datblygu a rheoli nodweddion tirwedd pwysig megis ffiniau caeau traddodiadol yn darparu amrywiaeth o gynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt. Roedd mwyafrif helaeth y ffiniau caeau a arolygwyd yn cynnwys gwrychoedd, rhesi o goed, waliau cerrig sychion, cloddiau pridd neu gloddiau cerrig a phridd. Roedd y rhan fwyaf o'r gwrychoedd a'r rhesi o goed yn tyfu ar gloddiau pridd neu gloddiau o gerrig a phridd. Pan geid ffensys yn unig i ffurfio ffiniau, roedd y rhain fel arfer ar gloddiau pridd. Mae cynnal a chadw traciau fferm ar gyfer cerbydau a symud stoc yn cynnig hafan i fywyd gwyllt oherwydd yn anaml y defnyddiwyd llawer o'r llwybrau hyn a arolygwyd.



Er mwyn rheoli'r rhan fwyaf o'r cynefinoedd a nodwyd, mae angen anifeiliaid pori – megis y defaid ar yr holl ffermydd a arolygwyd, yn ogystal â'r gwartheg ar lawer a'r ceffylau ar rai. Y llystyfiant uchafbwyntiol ar gyfer y cynefinoedd hyn yw coetir. Byddai symud yr anifeiliaid pori yn golygu y byddai coed ifanc, sydd eisoes i'w cael mewn rhai ardaloedd sy'n cael eu pori'n llai aml, yn cael cyfle i ymsefydlu. Mae'r anifeiliaid yn sicrhau bod llystyfiant sy'n tyfu'n fwy egniol fel coed ifanc, brwyn a glaswellt y gweunydd yn cael ei bori, gyda rhedyn yn cael eu sathru fel bod planhigion mwy bregus yn cael cyfle i ffynnu. Yn benodol, gwelwyd bod pori gan ddefaid yn fuddiol ar weundir grug; roedd yn sicrhau strwythur oedran amrywiol o rug ac is-lwyni eraill ac roedd unrhyw goed ifanc a oedd yn ceisio ymsefydlu yn cael eu difa. Mae defaid sy'n pori glaswelltiroedd lled-naturiol yn glos yn llesol i nifer o ffyngau, gan gynnwys capiau cwyr, ac mae porfa byr ar gloddiau pridd sy'n cael eu pori gan ddefaid



yn caniatáu i amrywiaeth o fflora ffynnu ac yn rhoi cyfle i bryfed a mamaliaid bach i dyllu.

Mae'r gwaith rheoli a wneir gan ffermwyr i sicrhau gwell pori i'w stoc, megis rheoli rhedyn a thorri brwyn pabwyr, o fudd i fflora a ffawna drwy annog mwy o amrywiaeth o blanhigion i ffynnu. Mae sathru gan stoc yn cael effaith debyg, gyda'r fantais ychwanegol, mewn ardaloedd corsiog, o greu micro-gynefinoedd ar gyfer amrywiaeth o bryfed. Mae cynhyrchu silwair – a gwair yn arbennig – gyda chaeau yn rhydd o stoc am gyfnod, yn caniatáu i rai blodau osod hadau ac i lwyni gwrychoedd ddatblygu ar y gwaelod, ac mae anifeiliaid yn angenrheidiol ar gyfer pori'r adladd. Gall sefydlu tir glas llysieuol – yn ogystal â thyfu gwreiddlysiau a chnydau â eraill, yn enwedig os mai ychydig iawn o ddefnydd, neu ddim, a wneir o gemegau – arwain at amrywiaeth o blanhigion blodeuol yn darparu pail a neithdar i bryfed.



Roedd coetiroedd heb stoc ar bob un o'r ffermydd ac roedd coridorau ar lannau nentydd ar rai ohonynt. Mewn llawer achos, roedd stoc yn cael eu cadw allan o goetir yn unol â gofyniad cynllun amaeth-amgylcheddol, sef Glastir Uwch ar hyn o bryd. Caiff stoc eu cadw allan o'r coetiroedd er mwyn annog coed a llwyni i ailgyfnewid naturiol, ond yn yr hirdymor bydd y rhan fwyaf ag angen eu pori unwaith eto er mwyn sicrhau bod amrywiaeth o fflora llawr y coetir

yn gallu ffynnu. Sefydlwyd y coridorau ar lan y nentydd i wella ansawdd y dŵr, yn ogystal ag annog coed a llwyni i dyfu. Heb bori, mae'r planhigion trechaf yn mynd yn rhy drwchus a chysgodol ac yn trechu'r planhigion eraill. Mae hyn yn peri pryder arbennig lle mae planhigion ymledol



estron, fel Llysiau'r dial a Jac y neidiwr yn mynd yn drech ac yn creu llawer o hadau sy'n golygu bod y rhywogaethau hyn yn ymledu i lawr y nant.

Cafodd llawer o goetiroedd, coedlannau a choed unigol eu sefydlu neu eu rheoli ar ffermydd i roi cysgod a lloches i stoc. Mae'r ffermwyr Glastir sydd â ffensys o amgylch eu coetiroedd i gadw'r stoc allan yn gweld y coetiroedd yn adfywio'n naturiol gydag isdyfiant trwchus, prysgwydd a haenau o fflora'n datblygu ar y llawr. Fodd bynnag, roedd pori'r coetiroedd na chafodd eu ffensio yn annog amrywiaeth o blanhigion a fyddai fel arall wedi cael eu cysgodi; mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o fwsoglau a rhedyn. Roedd rhai o'r coetiroedd a arolygwyd naill ai'n cael eu pori'n ysgafn neu'n cael eu pori dros gyfnod cyfyngedig yn unig, gan arwain at gydbwysedd da o ran ailgyfnewid naturiol y coed, isdyfiant, prysgwydd a'r fflora ar y llawr.

Roedd gan bob fferm ardaloedd o ddŵr agored – gan gynnwys afonydd, nentydd, ffosydd, llynnoedd neu byllau. Mae'r rhain yn rhoi dŵr yfed i'r stoc mewn llawer o achosion ac maent i gyd yn darparu cynefinoedd pwysig yn y dŵr ac ar hyd eu glannau.

